# Pontio'r Bwlch

## Sut y mae cynnyrch organig mewn siopau lleol yn dod â budd i bobl a chymunedau



PONTIO'R BWLCH · Alexandra Rose Charity · GROWING COMMUNITIES · NOURISH SCOTLAND · Synnwyr Bwyd Cymru Food Sense Wales · sustain the alliance for better food and farming

**Awduron yr Adroddiad:**

Hannah Gibbs a Vicky Gerrard, Sustain

**Cydnabyddiaethau:**

Rhaid diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am ariannu'r gwaith hwn yn rhan o'r rhaglen Meithrin Syniadau Gwych.

Arweinwyr cynlluniau peilot Pontio'r Bwlch ym maes manwerthu:

- Cwmni Buddiant Cymunedol Alchemic Kitchen
- Elusen Alexandra Rose
- Ben Vista CSA
- Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd
- Carrick Greengrocers
- Bwyd Cymunedol Caeredin

Partneriaid data, monitro, gwerthuso a dadansoddi:

- Angelina Sanderson Bellamy, Athro Systemau Bwyd, Prifysgol Gorllewin Lloegr
- Lisa Jack, Athro Cyfrifeg, Prifysgol Portsmouth
- Alan Leonard, Uwch-ddarlithydd mewn Economeg a Chyllid, Prifysgol Portsmouth
- Rebecca Nicolaides, Uwch-ddarlithydd mewn Cyfrifeg a Chyllid, Prifysgol Portsmouth
- Rowan Dumper-Pollard, Uwch-ymchwilydd Busnes a Marchnadoedd, Organic Research Centre
- Honor Eldridge, Ymchwilydd Llawrydd, Organic Research Centre
- Helena Knight, Darlithydd, Ysgol Fusnes Caerdydd
- Caroline Verfuerth, Darlithydd (Athro Cynorthwyol), Ysgol Fusnes Caerdydd
- Alex Jones, Cynorthwyydd Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

*Llun clawr:*
Prynu llysiau organig yng Nghydweithfa Fwyd Tower Hamlets © Eleanor Church

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol .......... 4

Cyflwyniad .......... 6

Rôl manwerthwyr annibynnol .......... 7

Cipolygon o'r maes: Llwyddiannau a heriau'r cynlluniau peilot manwerthu organig .......... 8

Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets .......... 10

Cerdyn y Blaned Caerdydd .......... 12

Cymuned Fwyd Caeredin .......... 14

Carrick Greengrocers .......... 16

Newtownards .......... 18

Lerpwl – Queen of Greens .......... 20

Sut y mae cynnyrch organig yn ychwanegu gwerth: Mesur effaith gymdeithasol, iechyd/ economaidd a chymunedol y cynlluniau peilot seiliedig ar fanwerthu .......... 22

Beth sy'n dal cynnyrch organig yn ôl: Rhwystrau allweddol o ran sicrhau mynediad i bawb mewn cyd-destun manwerthu .......... 26

Ehangu mynediad at gynnyrch organig: Gwerthuso cynlluniau talebau ar gyfer cymunedau incwm isel .......... 29

Argymhellion ar gyfer manwerthwyr a phrosiectau mynediad at fwyd .......... 33

Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi ac eiriolwyr .......... 34

Y camau nesaf ar gyfer Pontio'r Bwlch mewn lleoliadau manwerthu .......... 36

Ôl-nodiadau .......... 37

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhannu profiadau chwe phrosiect peilot ar draws y Deyrnas Unedig a gyd-ddyluniwyd â'r nod o bontio'r bwlch rhwng bwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur a phobl sy'n profi incwm isel. Mae'r chwe chynllun peilot yn dal i gynnig ffrwythau a llysiau organig yn eu cymunedau wedi i'r prosiect ddod i ben, gan ddefnyddio ystod o ddulliau gweithredu i alluogi mynediad ar gyfer pobl ar incwm isel.

Gan ddefnyddio ymchwil weithredol, data, arsylwi a modelu economaidd, mae'r adroddiad yn disgrifio gwersi allweddol y rhaglen: sef bod cynyddu mynediad at ffrwythau a llysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur yn cynnig nifer o fanteision i bobl, i gymunedau, i economïau lleol ac i'r amgylchedd.

Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion polisi ac ymarfer er mwyn cefnogi mynediad hirdymor at ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu yn unol ag egwyddorion organig ledled y Deyrnas Unedig. Yn benodol, mae'n amlygu dulliau o estyn cynllun talebau i aelwydydd incwm isel er mwyn iddynt allu cael mynediad at ffrwythau a llysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur.

## Buddion allweddol

Amlygodd rhaglen Pontio'r Bwlch fuddion allweddol cynyddu mynediad at ffrwythau a llysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r chwe chynllun peilot a oedd, gyda'i gilydd, wedi cyrraedd mwy na 2,740 o aelwydydd. Roedd hyn yn cynnwys

- **Buddion unigol:** mae pobl yn sôn am well iechyd a llesiant, mwy o urddas a rheolaeth dros eu dewisiadau bwyd, a mynediad at gynnyrch o ansawdd uwch sydd hefyd yn gallu lleihau gwastraff.
- **Buddion cymdeithasol:** mae siopau cymunedol yn cryfhau cysylltiadau cymdeithasol ac yn dyfnhau cysylltiad pobl â'u ffynonellau bwyd.
- **Yr economi leol:** mae'r arian sy'n cael ei wario ar fwyd yn cylchdroi yn lleol, gan gefnogi swyddi, busnesau a chymunedau.
- **Buddion amgylcheddol:** mae llai o fewnbwn cemegol yn lleihau colledion bioamrywiaeth ac yn cynyddu'r carbon sy'n cael ei storio yn y pridd.



Llun © Eleanor Church

## Rhwystrau allweddol

Edrychodd y rhaglen hefyd ar y rhwystrau canlynol, er mwyn cael gwybod, yn fwy penodol, sut yr oeddynt yn berthnasol i aelwydydd trwy'r cynlluniau peilot, gan ddarganfod y canlynol

- **Fforddiadwyedd:** cafodd ein cynlluniau peilot fod pris ffrwythau a llysiau organig lleol 40–50% yn uwch yn gyffredinol na chynnyrch anorganig yn y mannau lle y mae pobl yn siopa fel rheol. Ond mae hynny'n amrywio'n sylweddol ar draws cynhyrchion a'r tymhorau.
- **Yr hyn sydd ar gael:** mae'r Deyrnas Unedig yn dal yn ddibynnol iawn ar fewnforion ac nid oes ganddi gyflenwad cyson o'r prif ffrwythau a llysiau y mae ar bobl eisiau eu bwyta ar hyd y flwyddyn.
- **Hygyrchedd:** yn aml mae cadwyni cyflenwi lleol yn rhy wan i ddosbarthu ffrwythau a llysiau organig yn effeithiol, ac mae nifer rhy fach o fanwerthwyr yn eu cynnig yn agos at gartrefi pobl.
- **Ymwybyddiaeth:** hyd yn oed pan fydd y cynnig ar gael, efallai na fydd pobl yn gwybod amdano oherwydd nid yw'n rhan o'u patrymau siopa arferol ac yn aml, nid oes gan fanwerthwyr annibynnol y gyllideb i'w farchnata mewn modd effeithiol.

## Argymhellion allweddol

Mae'r adroddiad yn cloi trwy argymell sut y gall manwerthwyr a phrosiectau bwyd cymunedol gynnal cynlluniau fel y rhai peilot hyn er mwyn gwella hygyrchedd, fforddiadwyedd, ymwybyddiaeth ac argaeledd ffrwythau a llysiau organig i bobl ar incwm isel. Mae hyn yn cynnwys cysylltu gyda chyflenwyr a chynlluniau talebau trwy ddarparwyr gwasanaeth eraill a gwneud ymdrech glir i hyrwyddo'r hyn a gynigir.

Yn ogystal, argymhellir ymyriadau polisi i gynyddu'r cyflenwad o ffrwythau a llysiau a'i hygyrchedd, a rhoi sylw i'r 'canol coll' a fyddai'n golygu bod ffrwythau a llysiau organig a gynhyrchir yn lleol ar gael yn nes at yr ardal gynhyrchu.



Llun © Eleanor Church

# Cyflwyniad

Yn ôl y rhagolygon, amaethyddiaeth fydd y sector ail uchel yn y Deyrnas Unedig o safbwynt allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2040[iv], wrth i golledion natur byd-eang agosáu at bwynt trychinebus[1]. Mae dulliau cynhyrchu bwyd cyfredol yn dihysbyddu'r pridd ac yn dinistrio cynefinoedd sy'n hanfodol i ddyfodol amaethu. Rhybuddiodd Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn EAT Lancetii rhyngwladol y bydd y targedau ar gyfer adfer natur a'r hinsawdd allan o gyrraedd oni fydd deiet pobl y Deyrnas Unedig yn newid yn sylweddol. Mae hyn yn cynnwys bwyta llai o gig, a dyblu'r dognau o lysiau a phylsau sy'n cael eu bwyta[viii].

Oherwydd ei dibyniaeth ar fewnforio bwyd a gwrtaith mae'r Deyrnas Unedig yn fwy agored i anwadalrwydd prisiau ac ergydion i gadwyni cyflenwi, y mae nifer ohonynt yn gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae dibyniaeth y wlad ar fewnforion hefyd yn atal cymunedau lleol rhag cronni buddion economaidd trwy gynhyrchu bwyd yn nes at y cartref. Lle byddai'r arian sy'n cael ei wario yn lleol yn cyfrannu at ddiogelu a chreu swyddi.

Er mwyn cryfhau gwydnwch a lleihau niwed amgylcheddol, rhaid i 'fwyd da' ddod yn rhan o'r brif ffrwd sydd ar gael i bawb. Mae bwyd da yn faethlon, yn llawn ffrwythau, llysiau, pylsau a grawn cyflawn, yn isel o ran mewnbwn ac allyriadau, yn adfer natur, ac yn cefnogi bywoliaethau teilwng. Rhaid i ffermio organig, a newidiadau eraill, sy'n cynnwys cynhyrchu llai o dda byw, ddod yn rhan o'r brif ffrwd, a rhaid i fwyd da fod yn fforddiadwy mewn siopau lleol, marchnadoedd a mannau eraill.

Ond wrth i ansicrwydd bwyd gynydduvi i aelwydydd, gan niweidio iechyd a chadarnhau anfantais, mae pobl yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig y rheiny ar incwm isel, yn bwyta llawer llai o ffrwythau a llysiau na'r hyn a argymhellir[vii]. Mae'r newid i fwyd iach, ffres sy'n cael ei dyfu mewn ffordd sy'n gydnaws â natur hefyd yn her ychwanegol o dan y drefn bresennol gan fod y math hwn o fwyd yn aml yn ddrutach ac yn cael ei werthu fel cynnyrch 'premiwm', yn hytrach nag un a ddylai fod ar gael i bawb.

Aeth rhaglen Pontio'r Bwlch ati i gyd-ddatblygu a gwerthuso naw prosiect peilot yn y Deyrnas Unedig er mwyn profi'r ffordd orau o gysylltu cymunedau incwm isel â ffrwythau a llysiau organig. Edrychodd y chwe chynllun peilot seiliedig ar fanwerthu yn y pedair gwlad ar fodelau manwerthu a ffyrdd gwahanol o leihau costau i gwsmeriaid. Ariannwyd y rhaglen gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, o dan arweiniad elusen Alexandra Rose, Synnwyr Bwyd Cymru, Growing Communities, Nourish NI, Nourish Scotland, gyda Sustain yn ei chydgysylltu.

Dengys y cynlluniau peilot fod buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi a fforddiadwyedd yn gallu helpu mwy o bobl ar incwm isel i brynu a bwyta cynnyrch organig. Gall hyn dyfu'r farchnad, cefnogi mwy o amaethu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur, a chynnig urddas a dewisiadau sy'n gwella iechyd a llesiant.


Daw'r adroddiad i ben ag argymhellion ar gyfer treialu talebau ar raddfa fawr dros nifer o flynyddoedd er mwyn gwella mynediad at ffrwythau a llysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur ar draws y Deyrnas Unedig.

## Y sefyllfa bresennol

- Dim ond 35% o'r ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta yn y Deyrnas Unedig sy'n cael eu cynhyrchu yma[2]
- Rhaid dyblu nifer y ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta er mwyn cyrraedd nodau iechyd a thargedau'r blaned[3]
- Mae 14 miliwn o bobl yn byw ar incwm cymharol isel (21% / 1 o bob 5) (30% o blant)[4]
- Rheolir 96% o werthiannau nwyddau groser ym Mhrydain gan yr archfarchnadoedd, sy'n gwerthu cynnyrch organig am bris uchel[5]

## Enillion posibl yn sgil buddsoddi mewn bwyd sy'n ystyriol o'r hinsawdd a byd natur

Mae pob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddir yn dychwelyd £8.78 mewn buddion cymdeithasol, iechyd, economaidd ac amgylcheddol.




Ffigur 1

## Rôl manwerthwyr annibynnol

Mae systemau bwyd anorganig prif ffrwd yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi hir sy'n eiddo i gyfranddalwyr, gyda nifer o weithredwyr yn y canol. Mae hyn yn gwasgu'r elw o ffermwyr, gan adael ffermydd llai ar eu colled yn aml, fel y gwelir yn adroddiad Sustain, Unpicking Food Prices[6]. Mae Cynllun Tyfu Bwyd Lleol Sustain ar y llaw arall yn dangos bod manwerthwyr annibynnol a dosbarthwyr organig lleol, yn cylchdroi arian mewn economïau lleol, gan ddatblygu cyfoeth cymunedol. Mewn adroddiad gan y Sefydliad Economeg Newydd, nodwyd bod pob £10 sy'n cael ei wario trwy Growing Communities, un o bartneriaid Pontio'r Bwlch, yn gallu cynhyrchu gweithgaredd economaidd lleol gwerth oddeutu £25, o gymharu â £2.40 yn unig o'r archfarchnadoedd[8].

Gwelodd Sustain dystiolaeth gref fod cadwyni cyflenwi bwyd a oedd yn troi o amgylch busnesau llai, perthnasoedd agosach a llwybrau mwy amrywiol i'r farchnad, yn fwy hyblyg a gwydn na'r systemau arferol yn ystod pandemig COVID-19, sydd efallai yn esbonio profiad cyflenwyr bwyd lleol ar y pryd a welodd gynnydd o 111% yn y galw [am eu cynnyrch][9].

# Cipolygon o'r maes: Llwyddiannau a heriau'r cynlluniau peilot manwerthu organig

Ceisiodd partneriaid Pontio'r Bwlch yn y pedair gwlad ddeall effaith gwneud ffrwythau a llysiau organig yn hygyrch i bobl sy'n byw mewn ardaloedd incwm isel ar draws y Deyrnas Unedig. Aeth Pontio'r Bwlch ati i werthuso effaith darparu ffrwythau a llysiau organig neu amaethecolegol hygyrch i bobl sy'n profi incwm isel.

Ffrwyth grwpiau ffocws, cyfweliadau, arsylwadau ac arolygon cyfranogwyr, a data meintiol ynghylch cynhyrchiant, defnydd a deilliannau economaidd yw'r canfyddiadau a gyflwynir. Mae'r cyfuniad hwn o ddulliau – a gysylltodd â chymunedau lleol, ffermwyr a gweithredwyr y system fwyd – yn sicrhau bod y casgliadau'n adlewyrchu profiadau bywyd ac effaith fesuradwy.

Gyda'i gilydd, roedd y chwe chynllun peilot wedi cysylltu mwy na 6,000 o bobl â ffrwythau a llysiau organig a fyddai y tu hwnt i'w cyrraedd fel arall. Wrth wneud hynny, cefnogwyd oddeutu cant o ffermwyr a phrosiectau cymunedol.

## Prisiau

Cynhaliodd Pontio'r Bwlch ymchwil yn y fan a'r lle i'r pris y byddai pobl fel arfer yn ei dalu am ffrwythau a llysiau anorganig yn eu hardal, a chynnig canran gyfatebol o ddisgownt ar y pris organig, sef 40-50% yn gyffredinol.



Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets © Sylvie Belbouab

## 6 chynllun peilot mewn lleoliadau manwerthu:

Roedd 2,740 o aelwydydd sy'n nodi eu bod ar incwm isel wedi prynu llysiau organig trwy'r cynlluniau peilot; mae hynny'n fwy na 6,000 o bobl yn bwyta ffrwythau a llysiau organig gartref.



# Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets

| | |
|---|---|
| **Dull** | Gostyngiad o 45% ar bris cynnyrch organig |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 60+ o aelwydydd bob wythnos |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Tachwedd 2023-Mawrth 2026 |

Yn 2023, mewn partneriaeth a'r WEN ac Arweinwyr yn y Gymuned, lansiodd elusen Alexandra Rose gynllun peilot mewn dwy gydweithfa fwyd organig yn ardal Tower Hamlets, Dwyrain Llundain, sef un o'r mannau mwyaf difreintiedig yn y wlad. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, aeth dwy gydweithfa fwyd (Neuadd y Dref, Limehouse a Chanolfan Teviot) ati i gyfnewid eu cynnyrch anorganig am ffrwythau a llysiau organig a gyflenwyd gan Better Food Shed. Nid oedd cost ychwanegol i'r cwsmeriaid, felly gwerthwyd y ffrwythau a'r llysiau organig â disgownt o 45%. Roedd modd i deuluoedd a oedd wedi cofrestru â phrosiect Rose Vouchers yr elusen ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a'r prosiect Ffrwythau a Llysiau ar Bresgripsiwn yn yr ardal wario eu talebau yno hefyd. Darperir y talebau hyn i deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer cynllun Cychwyn Iach y GIG.

Yn ystod blwyddyn dau, canolbwyntiodd y cynllun peilot ar Ganolfan Teviot, gan gynyddu'r dyddiau gweithredu, a nifer y cwsmeriaid yn sgil hynny sydd wedi parhau i dyfu'n gyson ar hyd y cynllun peilot.



Prynu llysiau yng Nghydweithfa Fwyd Tower Hamlets © Eleanor Church

## Llwyddiannau'r Cynllun Peilot

**Cynyddu mynediad at ffrwythau a llysiau organig ar gyfer preswylwyr incwm isel**

O'r ymatebion i'n harolygon barn, amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn dod o aelwydydd incwm isel. Ar ddechrau'r cynllun peilot, 20% o'r preswylwyr a holwyd a oedd yn bwyta ffrwythau a llysiau organig yn rheolaidd. Erbyn diwedd y peilot, roedd hynny wedi cynyddu i 90%. Gweithiwyd gyda Folx Farm i ddarparu amrywiaeth eang o lysiau diwylliannol-gyfarwydd yn benodol ar gyfer y cymunedau Bangladeshaidd a gefnogid gan y prosiect.

**Newid arferion siopa**

Roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn dod i'r gydweithfa yn hytrach na'r archfarchnad, oherwydd eu ffydd yn y cynnyrch, y cymorth ariannol ac oriau agor estynedig y gydweithfa, a oedd wedi gwella hygyrchedd.

**Gwell maeth a llesiant**

Yn yr arolwg, dywedodd bron pob preswylydd fod ganddynt ddeiet gwell ac yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn hapusach, yn llai unig ac yn teimlo'n well ynddynt eu hunain.

**Teimlad o reolaeth**

Yn yr arolwg, soniodd oddeutu 90% o'r ymatebwyr fod mwy o reolaeth ganddynt, a olygai bod mwy o ddewis ganddynt o ran yr hyn yr oeddynt yn ei fwyta, a bod modd iddynt ddewis bwyd a oedd yn llesol i'w hiechyd.

**Ymdeimlad o gymuned**

Yn ôl yr arolygon, roedd y cynllun peilot wedi gwella cysylltiad preswylwyr â'u cymuned gan arwain at gyfranogiad ehangach yn y gymuned y tu hwnt i'r peilot. Cynyddwyd llythrennedd bwyd y trigolion hefyd, trwy ddarparu amgylchedd anffurfiol ar gyfer dysgu am gynnyrch tymhorol a ffrwythau a llysiau anghyfarwydd.

**Cefnogi tyfwyr lleol**

Roedd 25 ffermwr wedi elwa yn sgil y logisteg syml a'r cyfleoedd gwerthu rheolaidd yn y gydweithfa lle byddent yn cadw oddeutu 84% o'r arian a dderbyniwyd trwy'r gwerthiant, gan weld cymunedau sydd heb wasanaeth digonol yn cael budd o'u cynnyrch.

## Heriau'r Cynllun Peilot

**Ymgysylltu â'r gymuned a darparu addysg gymunedol**

Roedd cyfyngiadau ar adnoddau yn golygu bod gweithgareddau ymgysylltu'r peilot yn gyfyngedig. Pan fuddsoddwyd amser yn y gwaith hwn, yr oedd yn werth ei wneud, sy'n awgrymu bod mwy o lwyddiant o ran meithrin cymhelliad trigolion i brynu cynnyrch organig a denu mwy o gyfranogwyr o fewn cyrraedd.

**Costau llafur**

Roedd model manwerthu y cydweithfeydd bwyd yn golygu bod rhaid sicrhau cyllid ar wahân er mwyn talu costau'r staff ac nid oedd cynnwys costau gweithredu'r cynllun peilot ym mhris y bwyd yn ddewis ymarferol felly.

# Cerdyn y Blaned Caerdydd

| | |
|---|---|
| **Dull** | Taleb (£11 yr wythnos |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 120 o aelwydydd |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Mawrth 2024 – Tachwedd 2025 |

Yng Nghymru, mae pobl o aelwydydd incwm isel yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na phobl o aelwydydd incwm uwch.[10] Trwy Bontio'r Bwlch, daeth Bwyd Caerdydd (Partneriaeth Fwyd Leol y ddinas) â thrigolion, tyfwyr, stondinwyr marchnad a deietegwyr ynghyd i gyd-ddylunio atebion er mwyn pontio'r bwlch hwn. Rhoddodd Cerdyn y Blaned gwerth £11 o gredyd yr wythnos ar gerdyn digidol i aelwydydd incwm isel ei wario ar ffrwythau a llysiau organig mewn dwy farchnad ffermwyr yng Nghaerdydd. Gallai aelodau'r cynllun gadw llygad ar eu gwariant trwy lwyfan ar-lein a phrynu gan dri thyfwr. Cydgysylltwyd y cynllun yn lleol gan Fwyd Caerdydd a Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd.




Ffermwr Paul yn paratoi ei lysiau organig ym Marchnad Ffermwyr Caerdydd ar gyfer aelodau Cerdyn y Blaned
© Eleanor Church

## Llwyddiannau'r Cynllun Peilot

### Gwell maeth a llesiant

Roedd cael mynediad at gynnyrch tymhorol blasus a ffres wedi annog yr aelodau i goginio mwy o brydau o'r dechrau, rhoi cynnig ar ffrwythau, llysiau a ryseitiau newydd a bwyta llai o fwyd wedi'i brosesu. Dywedodd aelodau Cerdyn y Blaned eu bod yn bwyta hanner dogn ychwanegol o ffrwythau a llysiau, gan ragori ar eu targed o 5 y dydd. Mewn arolwg, dywedodd rhai o'r aelodau bod ymweld â'r marchnadoedd wedi eu gwneud yn hapusach ac yn llai unig hefyd.

### Ymdeimlad o gymuned

Bu'r aelodau yn rhyngweithio â chwsmeriaid a thyfwyr eraill, yn sgwrsio ac yn cyfnewid awgrymiadau coginio a chyngor ynghylch llysiau anghyfarwydd. Dros amser, trwy ymweliadau rheolaidd â'r farchnad, meithrinwyd ymdeimlad o berthyn i gymuned trwy'r cyswllt hwn.

### Gwella llythrennedd bwyd

Trwy siarad yn uniongyrchol â'r tyfwyr, cafodd yr aelodau gyfleoedd i ddysgu am gynhyrchiant bwyd organig a sut i goginio llysiau anghyfarwydd. Dengys yr arolygon fod hynny wedi meithrin eu hyder i drin bwyd, a'u ffydd yn y tyfwyr, gan ddarparu cyswllt rhwng y tyfwr a'r prynwr nad yw'n bodoli yn yr archfarchnadoedd.

### Ymdeimlad o reolaeth

Rhoddodd Cerdyn y Blaned ymdeimlad o reolaeth i'r aelodau, gan gynnig mynediad iddynt at ffrwythau a llysiau organig a'r farchnad ffermwyr leol a'u grymuso i brynu eitemau ar sail gwybodaeth.

### Cydnabyddiaeth wleidyddol

Ysgogodd Cerdyn y Blaned Caerdydd ddiddordeb sylweddol gan y llywodraeth, partneriaethau bwyd lleol, timau iechyd cyhoeddus lleol a'r cyfryngau. Yn ei Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, yr oedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (sy'n goruchwylio gweithrediad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015) wedi galw'n gyhoeddus am ymestyn rhaglenni tebyg ar draws Cymru.

## Heriau'r Cynllun Peilot

### Rhwystrau ymarferol

I'r aelodau, roedd trefnu i ymweld â'r marchnadoedd ynghanol eu cyfrifoldebau gwaith, gofal ac ymrwymiadau eraill yn heriol oherwydd oriau agor cyfyngedig y marchnadoedd, pellter teithio a thywydd gwael. O ran parhau i ymgysylltu, dangosodd astudiaeth hirdymor o aelodau Cerdyn y Blaned fod cyfranogwyr wedi cael trafferth i fforddio'r llysiau yn y farchnad a'u bod yn llai parod i fynd allan ym mhob tywydd. O ganlyniad, aethant i fwyta llai o ffrwythau a llysiau ynghyd â llai o amrywiaeth

### Cyflenwad cyfyngedig

Roedd lefelau isel o arddwriaeth a chynhyrchiant organig yng Nghymru yn cyfyngu ar y cynnyrch a oedd ar gael gan gyflenwyr lleol.

# Cymuned Fwyd Caeredin

| | |
|---|---|
| **Dull** | Gostyngiad o 42% ar gynnyrch organig |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 2,040 o aelwydydd |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Mehefin 2024 – Rhagfyr 2025 |

Dechreuodd y cynllun peilot hwn ar ffurf stondin dros dro bob pythefnos mewn rhan brysur o Leith yng Nghaeredin, a gynigai fynediad at ffrwythau a llysiau lleol ac organig a disgownt o 42%. Ers hynny, datblygodd yn stondin wythnosol ac ehangodd yr ystod y gall ei chynnig, sydd wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr wythnosol. Yn ogystal, mae’n dosbarthu bocsys i helpu pobl sy’n wynebu rhwystrau mynediad oherwydd symudedd, cyfrifoldebau gofal neu rwystrau eraill.




Stondin lysiau organig yn Leith Walk, Caeredin © Eleanor Church

## Llwyddiannau'r cynllun peilot

**Gwella llythrennedd bwyd**

Roedd y staff cyfeillgar a gwybodus yn gallu helpu'r ymwelwyr â'r stondin â'u hyder a'u dewisiadau.

**Cynyddu hygyrchedd**

Gwnaed y prosiect yn fwy hygyrch trwy ehangu'r diwrnodau a'r dulliau masnachu, yn ogystal â chynnig cynlluniau a modelau dosbarthu bocsys a darparu trafnidiaeth ar gyfer ymweliadau gan grwpiau penodedig. Roedd gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol yn y gymuned, megis cynigion tymhorol a digwyddiadau â thema wedi gwneud gwahaniaeth hefyd. Yn ogystal, daeth y stondin yn fwy o le cymunedol a werthfawrogid am resymau cymdeithasol y tu hwnt i'r cynnig manwerthu.

**Mwy o fynediad at ffrwythau a llysiau organig ar gyfer trigolion incwm isel**

Golygai'r model cymhorthdal ei bod yn haws i bobl sy'n profi incwm isel allu fforddio'r cynnyrch ond hyd yn oed wedyn, yr oedd yn bwysig cael cymorth cofleidiol hefyd i'r bobl a oedd yn prynu'r bwyd.

## Heriau'r cynllun peilot

**Ymwybyddiaeth gyfyngedig**

Gydag adnoddau marchnata cyfyngedig, roedd yn anodd rhoi gwybod i bobl am y cynnig. Gwelodd Bwyd Cymunedol Caeredin fod pobl ag incwm isel yn fwy tebygol o ymgysylltu trwy atgyfeiriadau cymunedol yn hytrach na thrwy alw i mewn wrth fynd heibio.

**Cyfyngiadau tymhorol a chyflenwadau**

Bu'n anodd i'r cynllun peilot gyflenwi cynnyrch organig ac amrywiaeth ar draws y tymhorau. O ganlyniad, roedd angen iddynt chwilio am gynnyrch ymhellach i ffwrdd ar hyd y rhan fwyaf o'r flwyddyn er mwyn parhau i gynnig amrywiaeth o gynnyrch.

**Fforddiadwyedd cyfyngedig**

O holi barn yr aelodau, gwelwyd bod prisiau cynnyrch organig yn dal i achosi pryder, hyd yn oed gyda'r disgownt.

# Carrick Greengrocers

| | |
|---|---|
| **Dull** | Model aelodaeth a oedd yn cynnig disgownt o 50% ar gynnyrch amaethecolegol |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 90 o aelwydydd |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Gorffennaf 2024 – Rhagfyr 2025 |

Ym mis Gorffennaf 2023 agorwyd drysau Carrick Greengrocers, sef y siop ffrwythau a llysiau gymunedol gyntaf yng Ngogledd Iwerddon, ar ôl codi mwy na £34,000 trwy gynllun cyfranddaliadau cymunedol. Un flwyddyn yn ddiweddarach, gyda chymorth Pontio’r Bwlch, lansiwyd ei Chlwb Bwyd Cyfeillgar, gan gynnig disgownt o 50% ar brisiau ffrwythau a llysiau organig i bobl sy’n profi incwm isel.




Llenwi basged â llysiau yn siop Carrick Greengrocers © Eleanor Church

## Llwyddiannau'r cynllun peilot

**Ymdeimlad o gymuned**

Roedd yn amlwg o'r grwpiau ffocws a'r arolygon fod y cyfranogwyr yn awyddus i gefnogi cynhyrchwyr lleol a gwario eu harian yn lleol. Gwerthfawrogwyd cael siop leol lle gallent ddal i fyny a chysylltu â phobl. I rai, roedd y siop o fewn cyrraedd hwylus i'w cartrefi a oedd hefyd yn golygu eu bod yn galw heibio'n rheolaidd. Daeth y Clwb Bwyd Cyfeillgar â chwsmeriaid i mewn a fyddai'n teimlo na allent ymgysylltu â'r lle fel arall.

**Gwella llythrennedd bwyd**

Gwelodd yr aelodau y gallent ddarganfod cynnyrch newydd trwy'r siop ffrwythau a llysiau, a rhoi cynnig ar ryseitiau newydd o ganlyniad. Bu hyn yn gyfle hefyd iddynt sgwrsio â'u plant am ffynonellau bwyd a thyfu tymhorol.

**Ansawdd, blas ac iechyd**

Yn yr arolygon a'r grwpiau ffocws, gwnaeth yr aelodau sylwadau fod ansawdd a blas y cynnyrch yn well na'r ffrwythau a'r llysiau o'r archfarchnad. Roeddynt hefyd yn ei ystyried yn iachach ac roedd hynny'n annog gwell arferion bwyta.

**Gwastraff isel**

Roedd yr aelodau'n gwerthfawrogi'r cyfle i brynu ychydig o'r hyn yr oedd ei angen arnynt gan fod hynny'n lleihau gwastraff.

## Heriau'r cynllun peilot

**Dirywiad y stryd fawr**

Gwelodd y siop ffrwythau a llysiau ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr wrth i siopau gau ar y stryd fawr, gan gynnwys y caffi a oedd gyferbyn â'r siop. Mae'r dirywiad hwn ar y stryd fawr, sy'n gyffredin ar draws y Deyrnas Unedig, yn effeithio ar fusnesau bach. Yn yr un modd, dywedodd pobl nad oedd y siop mewn man digon canolog a'i bod yn anodd iddynt fynd allan o'u ffordd i gyrraedd yno, pan oedd eu harferion prynu bwyd yn troi o gwmpas yr archfarchnad.

**Ymwybyddiaeth gyfyngedig**

Nid oedd digon o sôn am y lle yn Carrickfergus ac felly heb gyllideb farchnata fwy sylweddol, roedd yn anodd lledaenu'r neges am y Clwb Bwyd Cyfeillgar. Roedd canfyddiad hefyd fod y siop ffrwythau a llysiau ei hun yn ddrud, er nad oedd hynny'n gywir.

**Math gwahanol o brofiad siopa**

Nid oedd pobl wedi arfer â gweld prisiau fesul cilogram a chawsant fod y prisiau yn aneglur felly. Ac er bod pobl yn hoffi natur gynnes, gyfeillgar y lle, dywedodd rhai o aelodau'r grŵp ffocws bod arnynt ofn cael eu gweld neu eu hadnabod fel pobl ar incwm isel.

# Newtownards

| | |
|---|---|
| **Dull** | Disgownt o 50% ar bris cynllun bocs llysiau |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 31 o aelwydydd |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Gorffennaf – Rhagfyr 2024 |

O dipyn i beth, mae Barry Ferguson, ffermwr y bu ei deulu'n amaethu'r un tir ers y 1880au, yn troi fferm deuluol ei dad yn un organig. Yn 2023, lansiodd gynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) a bocsys llysiau, ond roedd yn ymwybodol bod ei focsys llysiau yn cyrraedd pobl ag incwm uchel yn bennaf hyn hytrach na'r bobl sy'n byw ar yr ystâd sy'n ffinio â'r fferm.

Gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2024, roedd cyfle i bobl incwm isel yn Newtownards ddod yn aelodau o'r cynllun bocsys llysiau wythnosol â disgownt o 50% ar y pris safonol. Câi'r aelodau gyfran o gynnyrch y fferm, yn seiliedig ar yr hyn a oedd yn barod i'w gynaeafu yr wythnos honno. Cyrhaeddodd y cynllun 98 o bobl ar draws 31 o aelwydydd, gan bara am 29 wythnos (un tymor).



Aelodau o gynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned a bocsys llysiau hygyrch Newtownards
© Eleanor Church

## Llwyddiannau'r Cynllun Peilot

**Tyfu busnes amaethecolegol i bawb**

Roedd y cynllun peilot hwn yn enghraifft wych o fusnes sy'n tyfu gyda'i gwsmeriaid ac ar eu cyfer. Mae Barry wedi croesawu cwsmeriaid newydd a newid ei fferm yn un organig ar yr un pryd a bu'r disgownt yn fodd iddo sicrhau bod y cwsmeriaid hynny yn cynrychioli'r gymuned leol yn fwy cyffredinol.

**Ymdeimlad o gymuned**

Gan fod y fferm yn gynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (CSA) yr oedd pobl yn cael ymweld â'r safle a chymryd rhan yng ngwaith y fferm, gan ddod yn nes eto at ffynhonnell eu bwyd. Cafwyd adborth gan rai cyfranogwyr a deimlai bod hynny'n llesol i'w hiechyd meddwl yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Roedd gwirfoddolwyr ar y fferm yn teimlo eu bod wedi buddsoddi'n bersonol yn ei llwyddiant ac yn falch o fod yn rhan o'r cynllun.

**Mwy o fynediad at ffrwythau a llysiau organig ar gyfer trigolion incwm isel**

Heb y cynllun peilot, yr oedd yn anodd i bobl gael mynediad at fwyd organig yn lleol, felly yr oedd hyn wedi cynnig dewis a oedd yn well iddynt ac i'w haelwydydd, yn eu barn hwy.

## Heriau'r cynllun peilot

**Cyfyngiadau o ran y cyflenwad**

Cychwynnodd y cynllun peilot yn ail flwyddyn weithredu'r CSA pan oedd y cynnyrch yn dal yn eithaf cyfyngedig oherwydd un cynhyrchwr oedd. Bu'n dymor heriol ar sawl ystyr a olygodd fod llai o gynnyrch na'r disgwyl a bu'n rhaid dod â'r cynllun i ben yn gynharach na'r disgwyl.

**Cyfyngiadau'r dull bocsys llysiau**

Ar adegau, cafodd y cyfranogwyr drafferth defnyddio holl gynnwys eu bocs neu nid oedd y cynhwysion yn apelio atynt neu at eraill ar yr aelwyd.

# Lerpwl – Queen of Greens

| | |
|---|---|
| **Dull** | Gostyngiad o 45-50% ar gynnyrch organig |
| **Nifer yr aelwydydd a gymerodd ran** | 400+ o aelwydydd |
| **Pryd y cynhaliwyd y cynllun peilot** | Hydref 2024 – Mawrth 2026 |

Bws yw’r Queen of Greens a gafodd ei drawsnewid yn siop ffrwythau a llysiau deithiol sy’n dod â ffrwythau a llysiau fforddiadwy i gymunedau mewn rhannau o Lerpwl a Knowsley sydd heb ddarpariaeth ddigonol o ffrwythau a llysiau ffres. Mae’r bws, sy’n ymweld â 40 lleoliad, yn gwasanaethu mwy na 700 o bobl yr wythnos, y byddai llawer ohonynt yn hoffi prynu cynnyrch organig ond ni allent fforddio gwneud hynny. Gweithiodd Pontio’r Bwlch gyda’r cyfanwerthwr Organic North o Fanceinion i gyflwyno ffrwythau a llysiau organig ar y bws am yr un pris â nwyddau anorganig. Mae’r bws hefyd yn derbyn talebau Alexandra Rose a Dechrau Iach.




Bws Queen of Greens yn hysbysebu bwyd organig yn un o’i arosfannau rheolaidd © Eleanor Church

## Llwyddiannau'r Cynllun Peilot

**Iechyd a llesiant**

Roedd ymdeimlad cryf o iechyd a llesiant gwell ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, yn gysylltiedig â mwynhau'r cynnyrch organig a gyflwynwyd, y dywedwyd bod ei ansawdd yn well na'r cynnyrch anorganig a oedd ar gael. Roedd y cynnyrch a ddarparwyd ar y bws yn dylanwadu ar arferion bwyta pobl ac yn eu hannog i roi cynnig ar fwy o fwydydd amrywiol.

**Ymdeimlad o gymuned**

Roedd y bws ei hun eisoes yn cynnig lle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chyfle i sbarduno diddordeb plant yn eu bwyd. Mae'r ddarpariaeth organig hefyd wedi helpu rhai i addasu i fywyd yn Lerpwl tra bo eraill o'r farn fod y cymorth ariannol i brynu nwyddau organig yn fynegiant o ofal dros rai a allai fod yn wynebu trafferthion ariannol, gan gyfrannu at ymdeimlad ehangach o lesiant cymdeithasol a chymunedol.

**Cyfleustra a dibynadwyedd**

Cyfeiriodd ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweliadau fod cyfleustra a dibynadwyedd gwasanaeth y bws yn fantais allweddol arall. Mae'r ffaith ei fod yn aros, ddwywaith yr wythnos, daith fer ar droed o'u cartrefi yn cynnig mynediad hyblyg a chyfleus at fwyd organig sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau gofal plant ac ymweliadau â'r feithrinfa.

**Cefnogi tyfwyr lleol**

Fel rhan o gynnydd ehangach yn y galw, bu'r cynllun peilot yn fodd i'r cyflenwr, Organic North, groesawu naw tyfwr newydd sy'n ystyriol o'r hinsawdd a natur, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnyrch sydd ganddynt. Bydd y perthnasoedd hyn yn parhau wedi'r cynllun peilot wrth i'r bws barhau i werthu cynnyrch organig.

## Heriau'r Cynllun Peilot

**Cyfyngiadau tymhorol a chyflenwadau**

I ddechrau, roedd y rhan fwyaf o gynnyrch y prosiect yn dod o'r Deyrnas Unedig ond, yn ystod y cynllun peilot, cafwyd mwy a mwy o gynnyrch o ffermydd Ewropeaidd gan nad oedd cynnyrch poblogaidd ar gael o ffermydd yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, sef y cyfnod llwm pan fydd cynhyrchiant yn y Deyrnas Unedig yn gostwng i'w lefel isaf bob blwyddyn. Mae llawer o'r cynhwysion y mae'r sylfaen cwsmeriaid amrywiol yn yr ardal hon yn gofyn amdanynt yn dod o wledydd Mediteranaidd.

**Natur rhai cynhyrchion organig**

Dywedodd aelodau fod eitemau bach, annodweddiadol eu maint yn her. Yn y Deyrnas Unedig, mae winwns/nionod ac afalau organig yn tueddu i fod yn llai na'r rhai yr oedd y cwsmeriaid wedi arfer â nhw ac felly byddent yn eu prynu'n llai aml.

**Diffyg oergelloedd**

Roedd diffyg oergelloedd yn atal y bws rhag cario cynnyrch mwy darfodus (sy'n dod o'r Deyrnas Unedig yn bennaf), megis letys, llysiau gwyrdd, perlysiau meddal a ffrwythau meddal, a fyddai'n apelio at y cwsmeriaid.

# Sut y mae cynnyrch organig yn ychwanegu gwerth: Mesur effaith gymdeithasol, iechyd/economaidd a chymunedol y cynlluniau peilot seiliedig ar fanwerthu

Mae'n amlwg o dystiolaeth y cynlluniau peilot fod cymunedau'n gwerthfawrogi cynnyrch organig, ond sut y mae mynd ati i fesur effaith cynnyrch organig a'r adenillion o fuddsoddi ynddo? Ceisiodd Pontio'r Bwlch wneud hynny trwy archwilio'r effaith ar bedwar ffactor gan ddefnyddio'r gwaith modelu a gyflawnwyd gan Brifysgol Portsmouth a'r Ganolfan Ymchwil Organig. Darlunnir hyn yn Ffigur 1:

- Effaith ar yr unigolyn
- Effaith ar yr amgylchedd
- Effaith ar gynhyrchwyr a'r economi leol
- Effaith ar y gymdeithas ehangach

Mae tystiolaeth glir fod cymorth â phontio i system fwyd iach a chynaliadwy yn gwireddu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor, ac yn arbed arian i bobl ac i bwrs y wlad. Mae'n werth nodi bod yr effaith fwyaf arwyddocaol i'w gweld ar y gymuned ehangach, wedi'i dilyn gan yr effaith ar unigolion o ran iechyd a llesiant. Mae hyn yn awgrymu bod cynnyrch organig yn ein cynlluniau peilot wedi ychwanegu'r gwerth mesuradwy mwyaf ym maes iechyd a llesiant. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag fod pob ymyriad yn y maes hwn yn unigryw yn ei allu i ychwanegu gwerth ar draws yr holl feysydd.

## Sut y mae'n gwneud i bobl deimlo

Mae ein harolygon a'n harsylwadau ansoddol, a ategir gan ddata pôl, yn ein helpu i ddeall yn well yr hyn sy'n ysgogi pobl i brynu cynnyrch organig, sy'n cynnwys y defnydd o gemegion, iechyd a llesiant, dewisiadau diwylliannol ac ansawdd.

**Ymdeimlad o iechyd a llesiant**

Y newid mwyaf arwyddocaol y soniodd cyfranogwyr amdano trwy'r arolygon ym mhob cynllun peilot oedd eu hymdeimlad o lesiant, gydag 80% yn sôn am welliant yn ystod y cynlluniau peilot. Soniodd pobl hefyd am newid cadarnhaol yn eu deiet, am fwyta llai o fyrbrydau ac am ddefnyddio mwy o lysiau wrth goginio, yn ogystal â chyflwyno amrywiaeth ehangach o fwydydd a bwydydd newydd a hynny'n fwy rheolaidd. Wrth i lythrennedd bwyd wella, arweiniodd hynny hefyd at gynnydd yn y niferoedd a oedd yn coginio prydau o'r dechrau.

Canfu'r data o arolygon barn cyfranogwyr Pontio'r Bwlch, a ategwyd gan bôl o 2,000 o aelwydydd[11], mai'r rheswm pennaf dros ddewis cynnyrch organig yw absenoldeb cemegion niweidiol. Dengys y data fod pobl yn teimlo'n iachach ac yn well ynddynt eu hunain pan fydd modd iddynt ddewis bwyta ffrwythau a llysiau heb gemegion.

Yn ogystal, canfu'r pôl mai grwpiau incwm isel yn aml sy'n fwyaf brwd dros brynu cynnyrch organig, yn enwedig pan fydd plant ganddyntx. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau peilot yn cael eu defnyddio gan deuluoedd â phlant ifanc a oedd yn gwneud y dewis hwn er lles iechyd eu plant.

### Dewisiadau diwylliannol

Lleolwyd y cynlluniau peilot yn bennaf mewn ardaloedd diwylliannol amrywiol, sy'n ddylanwad mawr ar y galw am fwydydd penodol yn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, Tower Hamlets yw'r ardal â'r gyfran uchaf yn y Deyrnas Unedig o bobl sy'n dweud eu bod yn dod o gefndir Bangladeshaidd , sef 34.6%, ac adlewyrchwyd hynny yn sylfaen gwsmeriaid y cydweithfeydd bwyd. Dywedodd y cwsmeriaid hyn eu bod yn bendant yn ffafrio cynnyrch organig oherwydd yr hanes ynghylch defnyddio plaladdwyr ym Mangladesh.[12] Yn yr arolwg barn terfynol o 47 o gwsmeriaid a gynhaliwyd gan Queen of Greens ym mis Ebrill 2026, gwelwyd bod bwyta bwyd organig yn arbennig o bwysig i rai grwpiau ethnig, gyda'r holl ymatebwyr Asiaidd (100%) a'r mwyafrif helaeth o ymatebwyr Du Affricanaidd (83%) yn dweud ei fod naill ai *yn bwysig dros ben* neu'n *bwysig iawn*. Mae'r ymatebion hyn yn amlygu gwerth darparu mynediad at gynnyrch organig ar gyfer y cymunedau hyn.

**Dywedodd un o ddefnyddwyr rheolaidd bws Queen of Greens**

> *"Mae [cynnyrch] organig yn bwysig oherwydd y mae'n iachach ac rydyn ni wedi arfer ei gael ym Mangladesh felly mae'n bwysig iawn i mi [...] Ym Mangladesh, rydyn ni'n cynhyrchu popeth, yn tyfu bwyd organig a ffres. Ces i fy magu ar fwyd organig, felly rwy am roi bwyd organig i fy mabi innau er mwyn iddi hi allu tyfu'n dda"*

### Gwerthfawrogi ansawdd a gwastraff isel

Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn gwerthfawrogi natur ffres, ansawdd a blas y cynnyrch a'i bod yn braf gallu rhoi blaenoriaeth i ansawdd a blas gan nad oedd y pris yn bryder mwyach. Roedd yn werth nodi, meddent, fod y cynnyrch yn para'n ffres am fwy o amser, a olygai bod llai o wastraff a llai o becynnu.

**Dywedodd Suad, sy'n defnyddio cydweithfa fwyd Tower Hamlets yn rheolaidd**

> *"Rwy'n codi'r Rose Vouchers yng Nghanolfan Blant Chrisp Street ond rwy'n eu gwario yng Nghanolfan Teviot yn hytrach na Marchnad Chrisp Street. I mi, mae'r cynnyrch yn y farchnad yn sefyll am amser hir ac nid yw'n organig, ond mae'r cynnyrch yn ffres ar stondin Teviot. Mae [cynnyrch] organig yn iachach ac rwy'n hoffi'r blas. Mae'n llawer mwy ffres."*

## Yr hyn y mae'n ei wneud dros y gymuned

Cynyddodd cynlluniau peilot manwerthu Pontio'r Bwlch y cyswllt rhwng ffermwyr, siopau lleol a'r gymuned ehangach, gan ennyn ymdeimlad o ymdrech leol ar y cyd, a arweiniodd at ymdeimlad cryfach o gymuned a balchder. Roedd pobl yn gwerthfawrogi'r tyfwyr a'r cyswllt agos â ffynhonnell eu bwyd, ynghyd â'r gallu i wario arian er budd pobl leol. Mae potensial i'r ymdeimlad hwnnw o berthyn gynyddu niferoedd a chadarnhau gwerth bwyd cynaliadwy lleol.

Yn ogystal, roedd y cyswllt agos â'r bobl sy'n tyfu ac yn gwerthu bwyd lleol wedi gwella llythrennedd bwyd y cyfranogwyr. Yng Nghaerdydd, dywedodd pobl eu bod yn elwa o adnabod Paul, y ffarmwr sy'n rhedeg ei stondin bob penwythnos ym Marchnad y Ffermwyr, a siarad ag ef. Bu'r cyswllt hwn o gymorth iddynt ddysgu sut i baratoi'r llysiau, yn enwedig amrywiadau tymhorol llai cyfarwydd, megis seleriac.

**Dywedodd aelodau o gynllun bocsys llysiau Newtownards:**

> *"Rydyn ni wedi bwyta llawer mwy o lysiau ac ystod lawer ehangach o lysiau", a'u bod wedi "mwynhau gwybod o ble y mae ein bwyd yn dod".*

## Sut y mae'n arwain at dwf economaidd

Bu cadwyni cyflenwi byr yn fodd i greu cyswllt agos rhwng y cynlluniau peilot a manwerthwyr a thyfwyr bach a chanolig, gan olygu bod mwy o arian yn cylchdroi yn yr economi leol. Yn ogystal, roedd y tyfwyr bwyd yn cael pris teg am eu cynnyrch trwy'r llwybr newydd i'r farchnad a gyflwynwyd gan y cynlluniau peilot hyn. Roedd y cadwyni cyflenwi byr, seiliedig ar werth yn golygu bod yr arian yn cyrraedd busnesau lleol heb gael ei lyncu gan weithredwyr lluosog ar hyd cadwyni cyflenwi byd-eang. Gwelodd Paul, y ffermwr o gynllun peilot Cerdyn y Blaned, gynnydd o 10% yn ei incwm o werthiannau marchnad â chyfranogiad cwsmeriaid Cerdyn y Blaned, y gallai ei wario yn lleol wedyn.

**Dywedodd un o ddefnyddwyr Cerdyn y Blaned yng Nghaerdydd:**

> *"Mae gennyf lawer mwy o barch at ffermwyr organig yn awr ... ar ôl siarad cymaint â Paul. I mi, does dim cysylltiad â'r bwyd yn yr archfarchnad. Yn y farchnad, rwyt ti'n dod yn llawer mwy cyfarwydd â'r broses o dyfu'r bwyd sydd ar dy blât ... mae cyfle i siarad â'r ffermwyr bob wythnos a gwrando ar eu hanesion ... mae'n gwneud i mi werthfawrogi'r bwyd, o ble y mae'n dod, y bobl sy'n ei dyfu a'r cyswllt agos â'r gymuned sydd ar goll yn yr archfarchnad"*

Mae lle i gynyddu graddfa ymyriadau sy'n cysylltu cymunedau incwm isel â thyfwyr organig ac amaethecolegol er mwyn ehangu effaith economaidd y rhaglen yn y modd hwn fel y dangosodd ein hymchwil fodelu (gweler tudalen rhif 31). Mae'r dystiolaeth ehangach yn cefnogi hynny. Er enghraifft, dengys tystiolaeth y Sefydliad Dosbarthu Bwydydd (IGD) y byddai symud tuag at ddefnyddio'r tir amaethyddol sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig i dyfu ffrwythau a llysiau yn arwain at dwf sylweddol, yn cyflwyno £421 miliwn o werth blynyddol ac yn creu 20,000 o swyddi[13]. Petai'r newid hwn yn canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi lleol sy'n hoelio'r sylw ar y ffermwr, gyda swyddi da a chyflog byw, gallai economïau lleol deimlo'r budd ychwanegol hwn (gweler briffiad Sustain[14]).

## Sut y mae'n cefnogi'r amgylchedd

Fel y nododd cyfranogwyr y cynlluniau peilot, mae ardystiad organig yn gwahardd defnyddio cemegion niweidiol. Yn ogystal â'r manteision posibl o ran iechyd, mae hyn hefyd yn lleihau'r risg o lygredd amgylcheddol yn y pridd ac yn cefnogi ffyniant peillwyr ac ysglyfaethwyr naturiol plâu, gan arwain at welliant o 30% mewn bioamrywiaeth[15].

Yn ogystal, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn gostwng gan fod cynhyrchu a defnyddio gwrtaith nitrogen yn cyfrif am 52% o'r ynni amaethyddol a ddefnyddir i dyfu cnydau megis gwenith[16]. Ar ben hynny, mae'r pridd ar ffermydd organig yn storio hyd at 30% yn fwy o garbon o gymharu â'r pridd ar ffermydd diwydiannol. Drwy gynyddu'r galw am gynnyrch organig, bydd cyfran uwch o'n ffrwythau a'n llysiau domestig yn cael eu tyfu i safonau uwch o ran yr hinsawdd a natur, gan gefnogi'r broses o bontio i amaethecoleg.



Casglu tomatos organig ar gyfer Bwyd Cymunedol Caeredin © Eleanor Church

# Beth sy'n dal cynnyrch organig yn ôl: Rhwystrau allweddol o ran sicrhau mynediad i bawb mewn cyd-destun manwerthu

Gan ddefnyddio profiad y cynlluniau peilot hyn ac archwiliad ehangach o'r sector manwerthu, crynhowyd y gwersi a ddysgwyd yn yr heriau canlynol wrth gynyddu mynediad at gynnyrch sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur mewn lleoliadau manwerthu sy'n gwasanaethu cymunedau incwm isel.

## Dibyniaeth ar fewnforion a chyflenwadau annigonol

Mae'r Deyrnas Unedig yn dibynnu'n helaeth ar fewnforio ffrwythau a llysiau, gyda mwy nag 80% o'r ffrwythau a bron i 50% o'r llysiau a fwyteir yn dod o wledydd tramor, sy'n lleihau gwydnwch ein cadwyni cyflenwi ac yn ein gwneud yn agored i risgi. Ymhlith y risgiau hyn y mae tywydd eithafol, chwyddiant ac effaith gwrthdaro rhyngwladol ar gadwyni cyflenwi. Mae'r IGD yn rhybuddio y bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at gostau sylweddol i'r Deyrnas Unedig os na fydd rhywbeth yn newid. Y risg fwyaf o ran costau mewnforio yw Sbaen, sy'n ffynhonnell allweddol o ffrwythau a llysiau, lle rhagwelir y bydd costau'n cynyddu 15%.

Mae lefelau isel o gynhyrchiant organig ac anorganig yn y Deyrnas Unedig yn mynd o ddrwg i waeth oherwydd cyfyngiadau tymhorol, sy'n lleihau'r cyflenwad dros y gaeaf ac yn cyfyngu'r hyn sydd ar gael ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae rhai cymunedau yn dibynnu ar brif fwydydd nad ydynt, yn draddodiadol, yn cael eu tyfu yn y Deyrnas Unedig ac er bod modd tyfu llawer o gnydau diwylliannol-berthnasol, nid ydynt ar gael ym mhobman.

Gwelwyd y cyflenwad cyfyngedig hwn yn y cynlluniau peilot manwerthu, a ddefnyddiai amryw o ddulliau gweithredu, rhai â chyflenwr sengl, eraill â nifer o gyflenwyr lleol. Roedd tri chynllun peilot hefyd yn prynu llysiau tramor ac yr oedd un wedi cyfuno'i gynnig organig â chynnyrch anorganig. Nid yw'n syndod deall mai'r cynllun peilot mwyaf bregus oedd y cynllun bocs llysiau gan dyfwr sengl trwy Gynllun Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol ar raddfa fach, a gyfyngwyd felly i gyfnod dosbarthu byr rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd. Bu modd i'r cynlluniau eraill gymysgu cyflenwadau er mwyn darparu cynnig mwy cyson i'r cwsmer.

Gwers Allweddol: mae gofyn cynyddu cynhyrchiant domestig a dibynnu ar nifer o ffynonellau, yn hytrach ag un tyfwr er mwyn cynyddu mynediad at ffrwythau a llysiau organig mewn ffordd gyson sy'n bodloni'r galw am amrywiaeth a chyflenwad ar hyd y flwyddyn.

> *"Rwy'n anabl ers mwy na chwe blynedd, felly mae'n arferol i mi gael trafferth i adael y tŷ [...]. Ond yr unig le rwy'n mynd 'nawr yw i farchnad y ffermwyr bob dydd Sul [...]. Daeth dydd Sul yn ddiwrnod hapus iawn i mi."*
>
> **Bina, aelod o Gerdyn y Blaned**

## Goblygiadau o ran costau llawn

Wrth brynu cynnyrch organig, gwyddom fod dulliau amaethu organig yn lleihau hyd yr eithaf ar lawer o gostau allanol amaethu confensiynol, megis colli bioamrywiaeth a niwed i'r amgylchedd.

Dengys astudiaethau hefyd fod cost dybiedig cynnyrch organig yn aml yn uwch na'r union wahaniaeth pris o gymharu â chynnyrch

anorganig ac y mae dull marchnata cynnyrch organig yn gwneud i rai deimlo nad yw'n gynnyrch i bawb[17]. Gwelodd ein cynlluniau peilot fod prisiau llysiau tymhorol sy'n tyfu yn y Deyrnas Unedig yn amrywio a bod mathau penodol o lysiau organig o'r Deyrnas Unedig yn debyg o ran pris i'r cynnyrch anorganig ar rai adegau o'r flwyddyn. Serch hynny, mae pris yn sicr yn rhwystr i fynediad. I oresgyn yr her hon, aeth y cynlluniau peilot, ati i bennu prisiau cyfatebol ochr yn ochr â chynnig cymorth i brosiectau, megis talu'r costau rheoli.

**Dywedodd aelod o Glwb Bwyd Cyfeillgar Carrick Greengrocer**

> *"Wrth argymell y lle yma, dydw i ddim yn sôn am gynnyrch organig na chydweithfa. Rwy'n annog pobl i fynd i mewn a phrynu pethau a'u blasu nhw. Ac yn sicr i chi ... mae'r rhan fwyaf o bobl wedi dod yn ôl a dweud, es i yno i brynu betys neu beth bynnag, a wyddwn i ddim fod ffrwythau a llysiau yn gallu blasu fel yna."*

I gyfranogwyr ar draws holl gynlluniau peilot Pontio'r Bwlch yr ystyriaeth bwysicaf wrth brynu bwyd oedd y pris bob amser; yr oedd hynny'n ffactor yn nyluniad y cynlluniau peilot ond gwelwyd bod y canfyddiad o bris yn parhau ynghyd â therfyn ar gynaliadwyedd hefyd unwaith y daeth y talebau i ben. Cadarnhaodd ein polau yn 2024[18] mai cost yw'r prif rwystr i brynu cynnyrch organig ymhlith pob grŵp incwm, ond yn enwedig i bobl ar incwm isel, er eu bod am wneud hynny.

**Gwers Allweddol:** Byddai gofyn buddsoddi yn y cyflenwad a'r galw ar ddau ben y gadwyn gyflenwi er mwyn goresgyn y rhwystrau pris a sicrhau bod pris bwyd sy'n gyfeillgar i natur a'r hinsawdd yn gyson ac o fewn cyrraedd.

## Dewisiadau diwylliannol a deietegol

Gallai'r ystod o ffrwythau a llysiau sydd ar werth fod yn rhwystr. Gweithiodd Cydweithfa Tower Hamlets gyda Folx Farm i ddarparu llysiau diwylliannol-berthnasol. Cynigiodd cynlluniau peilot eraill fwydydd diwylliannol-berthnasol anorganig os nad oedd rhai organig ar gael er mwyn sicrhau bod eu cynnig manwerthu yn dal i ddenu cwsmeriaid. Roedd dibyniaeth benodol ar ffrwythau trofannol.

**Gwers Allweddol:** Mae gofyn gwneud rhagor o waith i ddeall bwyta tymhorol yn y Deyrnas Unedig, ac i annog pobl i feddwl am effaith y ffrwythau a'r llysiau wedi'u mewnforio sydd ar gael ar hyd y flwyddyn, yn ogystal ag edrych ar atebion eraill megis cynyddu cynhyrchiant domestig.

## Seilwaith lleol coll

Ar draws y system fwyd, mae cadwyni cyflenwi wedi cael eu cyfuno a'u dominyddu gan fanwerthwyr a chwmnïau bwyd mawr. Mae hynny wedi gostwng prisiau ffrwythau a llysiau anorganig yn yr archfarchnadoedd i'r graddau bod ffermwyr yn gallu derbyn llai nag 1% o'r elw o'u cynnyrchvi.

Mae hyn yn ei dro wedi gadael bwlch ar gyfer seilwaith lleol. Rydym yn araf weld y bwlch hwn yn cael ei lenwi gan fusnesau fel y rhai a fu'n cydweithredu â'r rhaglen hon, sef the Better Food Shed ac Organic North, sy'n prynu ac yn cyflenwi cynnyrch organig lleol. Fodd bynnag, byddai angen tyfu'r busnesau bach hyn er mwyn gallu bodloni gofynion amserlenni busnesau manwerthu, ac fe achosodd yr amseroedd a'r dyddiau dosbarthu caeth drafferth i rai o'r cynlluniau peilot manwerthu.

Mae lleoliadau manwerthu mewn sefyllfa debyg, lle y mae'r amgylchedd gweithredu cystadleuol i fanwerthwyr annibynnol, a thra-arglwyddiaeth yr archfarchnadoedd yn y cefndir, yn golygu bod aros yn gystadleuol yn heriol pan fydd costau megis rhenti yn dal yn uchel.

**Gwers allweddol:** Mae buddsoddi mewn seilwaith yn allweddol o ran ehangu ymyriadau bach a chwilio am effeithlonrwydd yn y gadwyn gyflenwi er mwyn bodloni'r galw cynyddol.

## Diffyg ymwybyddiaeth ac arferion siopa sydd wedi ennill eu plwyf

Yn gyffredinol, nid oes gan fanwerthwyr bach, annibynnol, fel y rhai yn y cynlluniau peilot hyn, gyllideb farchnata sylweddol. Mae pobl wedi dod yn gyfarwydd â phrynu mewn siopau cyfleustra ac archfarchnadoedd felly mae cyrraedd eu cynulleidfa darged yn gallu bod yn anodd i fanwerthwyr.

**Dywedodd ymwelydd rheolaidd â stondin lysiau Bwyd Cymunedol Caeredin**

> *"mae siopa yma wedi gwella fy ansawdd bywyd yn feddyliol ac yn gorfforol. Mae ymweld bob wythnos yn bleser pur a byddai'n chwith iawn gennyf heb y stondin petai'n dod i ben."*

Ar ben hynny, roedd mynediad i'r rhan fwyaf o'r cynlluniau peilot wedi'i gyfyngu i ddiwrnodau marchnad a diwrnodau dosbarthu'r bocsys llysiau, ac yn gyffredinol, nid oeddynt ym mhrif fannau siopa wythnosol pobl. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa llawer o siopau organig, sy'n aml yn farchnadoedd ffermydd, yn siopau fferm ac yn gynlluniau bocsys llysiau. Er bod hyn yn cael ei weld fel rhywbeth cyfyngol sy'n gofyn newid arferion, gwelodd y cynlluniau peilot lle'r oedd y cyfyngiadau hyn ar waith fod eu cwsmeriaid wedi dal i ddod ar hyd cyfnod y peilot, gyda llawer o bobl yn datblygu patrymau newydd o gwmpas y ddarpariaeth oherwydd ymrwymiad y cyfranogwyr i sicrhau mynediad at fwyd am brisiau fforddiadwy.

**Gwers Allweddol:** Mae angen cymorth ar fanwerthwyr bach cymdeithasol, cymunedol ac annibynnol i fuddsoddi mewn gwaith marchnata a chymelliadau er mwyn denu sylfaen ehangach o gwsmeriaid, gan gynnwys cynyddu cyfleustra ac edrych ar sut y gellir annog siopwyr i addasu i arferion siopa newydd sy'n cynnig manteision cymdeithasol a chymunedol eraill, megis mynychu marchnadoedd wythnosol.



Paul yn paratoi'r stondin lysiau ym Marchnad Ffermwyr Caerdydd © Eleanor Church

# Ehangu mynediad at gynnyrch organig: Gwerthuso cynlluniau talebau ar gyfer cymunedau incwm isel

## Y cyd-destun o ran talebau


Mae consensws ymhlith sefydliadau gwrthdlodi mai diffyg incwm yn hytrach na diffyg bwyd sy'n sbarduno tlodi bwyd, er bod diffyg mynediad a'r premiwm tlodi, lle y mae siopau lleol yn fwy drud, hefyd yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae tystiolaeth hefyd fod ymyriadau arian parod yn gyntaf yn cynnig mwy o urddas a dewis i aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd o gymharu â pharseli bwyd mewn argyfwng.[19]

A bod yn fanwl gywir, nid yw talebau ynddynt eu hunain yn ymyriad arian parod yn gyntaf, ond y maent yn gam i ffwrdd o atebion dros dro ac yn fodd i bobl ddewis sut i wario'r cymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael iddynt heb golli urddas, os cynigir hwy mewn modd priodol[20]. Cafodd elusen Alexandra Rose hefyd fod talebau yn gallu lleihau straen a gorbryder yn sylweddol, ac ysgafnhau baich meddyliol y sawl sy'n eu defnyddio[21]. Roedd tri o'r chwe chynllun peilot wedi defnyddio talebau, a gwelwyd eu bod yn cynnig y dull symlaf, hawsaf ei olrhain, o gynyddu mynediad.

Mae cynlluniau talebau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur yn offeryn polisi unigryw sydd â'r potensial i gynyddu mynediad at ddeietau maethlon, gan adeiladu ar ddull gweithredu a ddefnyddir eisoes gan gynlluniau Dechrau Iach / Dechrau Gorau. Fe'u defnyddiwyd yn yr Unol Daleithiau ers degawdau a gallent sbarduno marchnad fywiog ar gyfer cynhyrchwyr ym Mhrydain sy'n ystyriol o'r hinsawdd a byd natur, a hybu gwydnwch manwerthwyr a marchnadoedd lleol, a gwella tegwch y gadwyn gyflenwi ar yr un pryd. Yn yr hirdymor, bydd hyn o gymorth i gyflawni nifer o nodau polisi: twf economaidd lleol, llai o afiechydon cysylltiedig â deiet, llesiant cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol.

**Gall talebau/cardiau cyfeillgar i'r hinsawdd a natur greu cysylltiadau rhwng ffermwyr, siopau lleol a'r gymuned ehangach**

Mae'r cysylltiadau hyn yn creu ymdeimlad o berthyn, yn annog pobl i gymryd rhan yn y cynllun ac yn cefnogi bwyd cynaliadwy lleol.



## Y dewisiadau o ran cynlluniau talebau

Gan fod sawl math gwahanol o gynlluniau talebau, aeth Pontio'r Bwlch ati i gomisiynu astudiaeth gan y Ganolfan Ymchwil Organig o ddichonoldeb ystod o gynlluniau taleb cyfeillgar i'r hinsawdd a natur. Adolygwyd hanner cant a phedwar o gynlluniau yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill, gan gwmpasu polisïau iechyd cyhoeddus, nawdd cymdeithasol, yr amgylchedd, a mynediad at fwyd, ochr yn ochr â data go iawn o gynlluniau peilot Pontio'r Bwlch.

Yn sgil yr asesiad, roedd dau fath o gynllun talebau cyfeillgar i'r hinsawdd a natur, sy'n cynnig y cydbwysedd gorau o degwch, dichonoldeb, ac effaith ar systemau, ar y rhestr fer.


| Cronfa Ffrwythau a Llysiau Organig Gymunedol Gymdogaethol | Taliad Chwyddo Dechrau Iach Organig |
|---|---|
| Darperir cymorth i bawb mewn cymunedau anghenus iawn, h.y. dull gweithredu cynhwysol. Talebau wythnosol gwerth £11 y gellir eu cyfnewid am ffrwythau a llysiau organig gan fanwerthwyr annibynnol lleol.<br><br>**Cryfderau**<br>• Mae'n dileu stigma ac yn lleihau rhwystrau o ran profi angen<br>• Cyfranogiad uchel, sy'n fwy manteisiol i'r economi, i'r hinsawdd ac i natur<br>• Cynllun hawdd ei weinyddu<br>• Mae'r dystiolaeth o'r cynlluniau peilot yn dangos gwell sicrwydd bwyd ac amrywiaeth ddeietegol<br><br>**Gwendidau**<br>• Cost uchel ar raddfa genedlaethol<br>• Mae angen cyllid cyhoeddus sefydlog a hirdymor<br>• Gall dichonoldeb gwleidyddol fod yn heriol<br>• Mae effaith gyfunol cynlluniau peilot mewn ardaloedd llai yn gallu bod yn fach | Darperir cymorth i'r rhai sy'n gymwys ar gyfer cynllun Dechrau Iach.<br>Darperir £6.75 o daliad chwyddo dewisol ar yr amod bod y daleb wythnosol gyfan (£11) yn cael ei chyfnewid am ffrwythau a llysiau organig gan fanwerthwyr annibynnol lleol.<br><br>**Cryfderau**<br>• Mae'n targedu aelwydydd incwm isel yn uniongyrchol fel bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn teimlo'r buddion iechyd ac unigol<br>• Costau is<br>• Mae'n defnyddio seilwaith gweinyddu sydd eisoes yn bodoli<br><br>**Gwendidau**<br>• Y stigma sy'n gysylltiedig â chymorth wedi'i dargedu<br>• Trefn weinyddu gymhleth<br>• Mae llai yn cymryd rhan sy'n golygu na fydd y manteision ehangach yn cael eu gwireddu'n llwyr<br>• Mae aelwydydd sy'n agos at y terfyn cymhwystra yn colli cyfle |

Ar ben hynny, ymchwiliodd y Ganolfan Ymchwil Organig i lwybrau polisi a chyllid ar gyfer cynllun talebau cyfeillgar i'r hinsawdd a natur ar lefel genedlaethol. Gwelsant:

- y byddai cymorth gan bolisïau ategol sy'n llywio cynhyrchiant bwyd a mynediad at fwyd, iechyd a chynlluniau dosbarthu lleol yn allweddol i lwyddiant y cynllun
- o ran cyllid, byddai modd rhannu'r costau rhwng yr adrannau o'r llywodraeth a fyddai'n elwa o'r cynllun, gan gynnwys DEFRA, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol / y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyllid llywodraeth leol/ chyllid seiliedig ar le, a allai olygu bod y buddsoddiad hwn yn fwy deniadol i lunwyr polisi.

## Adenillion posibl o fuddsoddi mewn cynlluniau talebau cyfeillgar i'r hinsawdd a natur

Gan ddefnyddio dadansoddiad economaidd y Ganolfan Ymchwil Organig, pennwyd gwerth ariannol y manteision hyn, er mwyn cymharu'r adenillion posibl o fuddsoddi yn y naill gynllun talebau a ffefrir a'r llall, ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol. Dosrannwyd costau'r seilwaith digidol a'r gwaith cynnal a chaw, marchnata, ymgysylltu cymunedol a monitro i'r astudiaethau achos.




Byddai sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl yn cymryd rhan yn y rhaglenni hyn yn hanfodol i'w llwyddiant ac i'r cydbwysedd buddion a chostau. Dengys ffigur x bod dull gweithredu'r Gronfa Ffrwythau a Llysiau Organig Gymunedol Gymdogaethol yn cynnig adenillion cryfach o fuddsoddi ar raddfa fwy gan fod mwy o bobl yn debygol o fanteisio arno, fel y gwelwyd yn achos cynlluniau cynhwysol eraill megis prydau ysgol am ddim. Yr awgrym o'n gwaith modelu yw y gellid cyflawni'r canlynol trwy gyflwyno'r cynllun hwn yn raddol mewn 13 o gymdogaethau incwm isel yn y Deyrnas Unedig:

- Gwella iechyd a llesiant mwy na 9,000 o drigolion
- Ychwanegu bron i £5.5m at incwm ffermwyr a thyfwyr dros 5 mlynedd
- Cynhyrchiant ffrwythau a llysiau organig sy'n cynyddu tua 288 tunnell dros 23 hectar o dir

Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn dangos pwysigrwydd cyflawni a chynnal lefelau uchel o gyfranogiad, sy'n galw am fuddsoddiad hanfodol mewn gwaith i reoli a marchnata'r rhaglenni yn ogystal â'r seilwaith digidol. Dengys y dadansoddiad hefyd y byddai modd treialu'r dull gweithredu hwn ar lefel ranbarthol, yn enwedig yn y rhannau o'r wlad lle gwelir lefelau ehangach o amddifadedd neu ardaloedd a dargedwyd ar gyfer ffyniant bro. Yn yr ardaloedd hynny, byddai dadl gref dros ddefnyddio dull gweithredu cynhwysol.

# Argymhellion ar gyfer manwerthwyr a phrosiectau mynediad at fwyd

Dylai manwerthwyr neu brosiectau bwyd cymunedol sydd am ddatblygu gwaith tebyg i’r hyn y bu’r cynlluniau peilot yn edrych arno, gael golwg ar yr awgrymiadau canlynol.

**Fforddiadwyedd:**

- Gofalwch hysbysebu’n glir eich bod yn derbyn Dechrau Iach.
- Edrychwch ar bartneriaethau gyda chynlluniau talebau eraill, megis Rose Vouchers elusen Alexandra Rose neu drefniadau cyllido torfol ar gyfer cynlluniau ‘talu ymlaen’).
- Archwilio partneriaethau â chyfanwerthwyr organig sy’n canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi byr seiliedig ar ffermwyr, ond sydd hefyd yn gallu prynu cynnyrch o wledydd tramor pan fydd angen er mwyn llenwi bylchau.

**Hygyrchedd:**

- Ceisiwch chwilio am gynnyrch o ffermydd sy’n tyfu bwydydd organig diwylliannol-berthnasol. Fel arall, ychwanegwch fwydydd anorganig a fydd yn apelio at ddewisiadau diwylliannol yn yr ardal.
- Cefnogwch arferion bwyta tymhorol trwy siarad â’r cwsmeriaid ac argymell sut y mae coginio cynnyrch tymhorol, trwy arddangos ryseitiau, e.e. ar fagiau llysiau (dull llwyddiannus a ddefnyddiwyd gan nifer o’r cynlluniau peilot).

**Argaeledd:**

- Cysylltwch â chyflenwyr lleol fel y rhai o’r cynlluniau peilot i drafod sut y gallai dewisiadau dosbarthu weithio yn eich lleoliad manwerthu chi.
- Derbyniwch fod angen cyfuniad priodol o gyflenwadau o’r Deyrnas Unedig ac o wledydd tramor.
- Ystyriwch eich oriau agor a chyfleustra yn ogystal â hyrwyddo manteision ehangach eich model os yw’r oriau’n gyfyngedig, h.y. beth yw’r cynnig cymdeithasol a chymunedol.

**Ymwybyddiaeth:**

- Pan fydd modd defnyddio talebau mewn lleoedd manwerthu, cysylltwch â darparwyr gwasanaethau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio pobl atoch chi a’ch darpariaeth.
- Hysbysebwch eich cynnig mewn modd mor eglur â phosibl i’ch cwsmeriaid.

# Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi ac eiriolwyr

Mae'r chwe chynllun peilot yn dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd ffrwythau a llysiau organig o fewn cyrraedd pobl ar incwm isel. Nodir isod argymhellion polisi, o'r cam cyflenwi hyd y cam mynediad, a fyddai'n helpu i bontio'r bwlch (i gael rhagor o fanylion edrychwch ar Bapur Briffio llawn Pontio'r Bwlch).

## 1. Gwella'r cyflenwad

**1.1. Cyflwyno strategaeth twf garddwriaeth drawsadrannol fel bod mwy o ffrwythau, llysiau a phylsau yn cael eu cynhyrchu a'u bwyta.**

- Cefnogi cydweithrediad rhwng tyfwyr a chyda thyfwyr.
- Cynnig grantiau i newydd-ddyfodiaid a thyfwyr, ochr yn ochr â chyngor a mynediad at dir, er mwyn cynyddu nifer y tyfwyr a swmp y ffrwythau a'r llysiau a dyfir.
- Cynnig hyfforddiant garddwriaeth i newydd-ddyfodiaid a'r genhedlaeth nesaf o dyfwyr, gyda sylw pendant ar ddulliau cynhyrchu organig ac amaethecolegol.
- Helpu tyfwyr i gyflwyno cnydau bwyd diwylliannol-berthnasol.
- Helpu tyfwyr i ganfod llwybrau da i'r farchnad, yn enwedig gwerthu uniongyrchol er mwyn cadw mwy o werth, a dulliau sy'n cyrraedd cymunedau incwm isel.

**1.2. Integreiddio'r strategaeth twf garddwriaeth â chynllun gweithredu organig** er mwyn sicrhau bod y cynnydd mewn cynhyrchiant yn lleihau hyd yr eithaf ar ddifrod amgylcheddol, yn cynyddu bioamrywiaeth ac yn gwneud ei ran i gyflenwi a gyrru'r galw cynyddol am fwyd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur.

## 2. Gwella'r canol coll

**2.1. Buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi byrrach ar gyfer BBaChau a'u cefnogi trwy greu cronfa fuddsoddi neu grantiau cenedlaethol neu ranbarthol sy'n targedu BBaChau y cadwyni cyflenwi organig ac amaethecolegol, megis taliad ychwanegol ar gyfer cynnyrch sy'n gyfeillgar i natur.**

- Dylai grantiau a mathau eraill o fuddsoddiad flaenoriaethu cynyddu capasiti prosesu ac agregu rhwng ffermwyr neu ar lefel ddosbarthu, megis golchwyr a holltwyr.
- Creu polisïau cynllunio lleol a rhanbarthol sy'n blaenoriaethu lleoedd a chyfleusterau ar gyfer BBaChau bwyd, gan gynnwys cyfanwerthwyr a chwmnïau dosbarthu a arweinir gan werthoedd.

**2.2. Gwella tegwch a thryloywder ar draws cadwyni cyflenwi prif ffrwd trwy ddeddfwriaeth, a thrwy gryfhau rôl rheoleiddwyr cadwyni cyflenwi yn y Deyrnas Unedig.**

- Gellir cyflawni hynny, er enghraifft, trwy wella mecanwaith a phwerau'r Ymrwymiad Bargen Deg, Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser a Dyfarnwr y Gadwyn Gyflenwi Amaethyddol, a dysgu gwersi o'r arfer da a bennwyd yn y cyfieithiad Sbaeneg o gyfarwyddeb Arferion Masnachu Annheg yr Undeb Ewropeaidd .

**2.3. Llunio cynllun tyfu bwyd lleol ar gyfer pob rhanbarth ar y cyd â'r gymdeithas sifil a'r gymuned, gan gynnwys partneriaethau bwyd, i fapio'r dulliau gweithredu rhanbarthol mwyaf effeithiol i wella argaeledd bwyd lleol iach a chynaliadwy sydd hefyd yn gallu hybu economi leol y rhanbarth neu'r ardal ddaearyddol honno.**

## 3. Gwella'r mynediad

**3.1. Defnyddio cynlluniau cymhelliad presennol a newydd, megis talebau, i gynyddu mynediad at ffrwythau, llysiau a phylsau organig trwy fanwerthwyr annibynnol.**

- Ariannu cynlluniau peilot pellach a'u cyflwyno fesul cam mewn cymunedau er mwyn deall y dulliau mwyaf effeithlon o ddenu pobl yn ôl i'r stryd fawr i brynu ffrwythau a llysiau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd a natur. Gallent brofi a threialu ymhellach y dulliau gweithredu a fodelwyd yn yr adroddiad hwn:
    - Cronfa Ffrwythau a Llysiau Organig Gymunedol Gymdogaethol
    - Cynllun Taliad Ychwanegol Organig Dechrau Iach

**3.2. Cefnogi helaethu lleoedd manwerthu bwyd lleol a chymunedol, megis marchnadoedd ffermwyr, hybiau bwyd cymunedol, cydweithfeydd bwyd a siopau ffrwythau a llysiau annibynnol, er mwyn cysylltu cwsmeriaid yn well â chynhyrchwyr bach a'i gilydd.**



Coflaid o lysiau o Farchnad y Ffermwyr, Caerdydd © Eleanor Church

# Y camau nesaf ar gyfer Pontio’r Bwlch mewn lleoliadau manwerthu

Mae’r holl fanwerthwyr a fu’n rhan o’r cynlluniau peilot hyn yn dal i gynnig ffrwythau a llysiau organig i’w cwsmeriaid. Mae’r rhan fwyaf o’r cynlluniau wedi parhau ar ryw ffurf neu’i gilydd.

- **Bocsys Llysiau Hygyrch Newtownards** - mae pris y cynllun bocsys llysiau wedi codi ond mae’n dal yn llai na’r pris llawn gwreiddiol, a bu hyn o gymorth iddynt gadw 28 o’r 31 o gwsmeriaid o’r cynllun peilot. Mae nifer yr aelwydydd sy’n defnyddio’r cynllun wedi dyblu yn ystod y ddwy flynedd ers dechrau’r cynllun peilot.

- **Clwb Bwyd Cyfeillgar Carrick Greengrocer**s – codwyd arian gan randdeiliaid cymunedol y clwb er mwyn parhau â chynllun y clwb bwyd cyfeillgar.

- **Cydweithfa Fwyd Tower Hamlets** – cafwyd hyd i gyllid newydd er mwyn parhau â’r cynnig yn y gydweithfa fwyd. Archwilir dulliau o bontio i fodel cynaliadwy yn yr hirdymor.

- **Queen of Greens, Lerpwl** – mae’r cynllun yn parhau i ddarparu cynnyrch organig trwy’r un cyflenwr, ar lefel ychydig yn is heb gymhorthdal.

- **Bwyd Cymunedol Caeredin** – mae’n parhau i gynnig cynnyrch organig gan ddefnyddio model talu pedair rhan: sef y tâl arferol, tâl â chymhorthdal, darpariaeth frys, ac opsiwn talu ymlaen (lle gall cwsmeriaid gyfrannu at ddarpariaeth mewn argyfwng, a bocsys “talu ymlaen”). O ganlyniad mae’r mwyafrif o’r cwsmeriaid yn talu’r prisiau arferol, ond caniateir hyblygrwydd o hyd i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Llwyddwyd i ddenu mwy o gwsmeriaid a chynyddu’r refeniw trwy gynnwys caws ac wyau yn eu cynnig.

- **Cerdyn y Blaned, Caerdydd** – mae’r cynllun hwn wedi cau am y tro er mwyn pwyso a mesur ac archwilio dewisiadau ar gyfer dulliau gweithredu dilynol yng Nghaerdydd a’r tu hwnt (i gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Adroddiad Cerdyn y Blaned, Caerdydd: Sut y gall arian cyhoeddus greu cyfoeth cymunedol drwy ddefnyddio cyllid argyfwng drwy economïau lleol er budd pobl a’r blaned ).

These pilots have demonstrated how public interventions can generate significant social return on investment by improving diets, strengthening communities and supporting farming for climate and nature across the UK. Sustain will continue to call for public funds to be channeled to supporting schemes such as those presented here which can support multiple public goods for healthier people, communities and local environments.

# Ôl-nodiadau


1 Pinchbeck, Richardson, Nurse, Devane et al. The Seventh Carbon Budget Advice for the UK Government, (Pwyllgor y Newid yn yr Hinsawdd, 2025).

2 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), UK Food Security Report 2024, (DEFRA, 2024).

3 Rockström, Johan et al. The EAT–Lancet Commission on healthy, sustainable, and just food systems, (The Lancet, Cyfrol 406, Argraffiad 10512, 1625 – 1700, 2025).

4 Sefydliad Joseph Rowntree, UK Poverty 2025, (Sefydliad Joseph Rowntree, 2025).

5 Worldpanel, Grocery Market Share, (Worldpanel, 2026).

6 Sustain, Unpicking Food Prices, (Sustain, 2022).

7 Sustain, Local Food Growth Plan, (Sustain, 2024).

8 NEF, Farmer-focused routes to Market, (NEF, 2021).

9 Jones, Local food systems can be more resilient to shocks and inflation, finds Sustain (Sustain, 2026).

10 UK Organic ac Organic Research Centre, Marketing organic: Consumer insights report 2024, (Organic Research Centre ac UK Organic, 2024).

11 Tîm Gwella a Strategaeth Gorfforaethol, Tower Hamlets Borough Profile, (Tower Hamlets, 2024).

12 Y Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser (IGD), Driving Growth Through a Thriving Food System, (IGD, 2025).

13 Jones, Local food systems can be more resilient to shocks and inflation, finds Sustain (Sustain, 2026).

14 Tuck, Winqvist, Mota, Ahnström, Turnbull, a Bengtsson, Land-use intensity and the effects of organic farming on biodiversity: a hierarchical meta-analysis' (Journal of applied ecology, 51(3), tt.746-755, 2014).

15 Fertilizers Europe, Harvesting Energy, (Fertilizers Europe, 2019).

16 Demand for organic food - FB11AGRAR - Uni Kassel

17 Ymddiriedolaeth Trussell, Cash-first approaches to supporting people facing financial hardship locally: a literature review, (Ymddiriedolaeth Trussell, 2022).

18 Food Aid Network, Why cash first? (Food Aid Network)

19 Green, Harwood, Fawcett, Rose Vouchers for Fruit and Veg Project Impact and Outcomes Report, (Elusen Alexandra Rose, 2023).

20 Llywodraeth Sbaen, Cyfraith 16/2021, Rhagfyr 14, sy'n diwygio Cyfraith 12/2013, Awst 2, ar fesurau i wella gweithrediad y gadwyn fwyd, (Boletín Oficial del Estado, rhif 299, 15 Rhagfyr, 2021, t153323-153352

21 Bwyd Caerdydd, Cerdyn y Blaned 2023-2025: Sut y gall arian cyhoeddus greu cyfoeth cymunedol trwy ddefnyddio cyllid argyfwng drwy economïau lleol er budd pobl a'r blaned, (Bwyd Caerdydd, Synnwyr Bwyd Cymru, 2026)

# Pontio'r Bwlch

Cyhoeddiad Sustain

Mehefin 2026

## Ynglŷn â Sustain

Mae Sustain: y gynghrair ar gyfer gwell bwyd a ffermio, yn hyrwyddo polisïau ac arferion yn ymwneud â bwyd ac amaethyddiaeth sy'n gwella iechyd a llesiant pobl ac anifeiliaid, yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer byd natur, yn gwella'r amgylchedd byw a gweithio, yn cyfoethogi cymdeithas a diwylliant, ac yn hyrwyddo mwy o gydraddoldeb. Mae'n cynrychioli tua 100 o sefydliadau er budd y cyhoedd, ac yn meithrin y mudiad newid, gan weithio gyda llawer o sefydliadau eraill ar lefel lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

sustain@sustainweb.org
www.sustainweb.org

Sustain, The Green House,
244-254 Cambridge Heath Road
London E2 9DA
020 3559 6777

## Ynglŷn â phontio'r bwlch

Wedi'i lansio yn 2022, cefnogir Pontio'r Bwlch gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae Sustain, Elusen Alexandra Rose a Growing Communities, sy'n gweithio gyda Synnwyr Bwyd Cymru, a Nourish Scotland, yn dod â sefydliadau ynghyd sydd wedi'u uno yn y gred bod gan bawb yr hawl i fwyd iach a fforddiadwy sy'n gweithio i'r blaned.

www.sustainweb.org/bridging-the-gap/
bridgingthegap@sustainweb.org

Mae Sustain yn Elusen Gofrestredig rhif. 1018643 © Sustain 2026